# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

**HAF 2023**

**TAG**
**CYMRAEG IAITH GYNTAF - UNED 3**
**2000N30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2023. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG: IAITH GYNTAF - UNED 3**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2023**

## Adran A

### Defnyddio Iaith a Barddoniaeth

Cyfanswm o **25** marc

- Rhoddir 2 farc am bob brawddeg sydd yn dangos ystyr a defnydd yn eglur a chywirdeb ieithyddol. Rhaid dangos ystyr yn eglur cyn ennill marciau.

1 neu 2 wall – colli ½ marc
Mwy na 2 wall – colli 1 marc
Ystyrir gwallau atalnodi, e.e. acen grom neu atalnod llawn, yn wallau. Hefyd pan gyflwynir dwy frawddeg yn lle un, ystyrir hyn yn un gwall.

**amdanynt:** angen defnyddio'r arddodiad yn gywir, trydydd person lluosog yr arddodiad 'am'. Byddai'n annaturiol iddo beidio â gwybod amdanynt hwy (amdanyn nhw) gan eu bod yn byw gyferbyn ag ef.

Mae'r ferch yn cyfleu ei theimladau amdanynt hwy yn eglur iawn.

Mae'r ddau ddyn y mae'n gwybod amdanynt yn y ddalfa.

Gellir dyfarnu 2 farc am yr atebion hyn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

**gwelwyd:** rhaid cyfleu'r ffurf amhersonol yn yr amser gorffennol yn gywir gan ddefnyddio 'gan' yn y frawddeg.

Dyma'r dyn y gwelwyd ei lun gan Siân yn y papur neithiwr.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol.

Gwelwyd drama dda gan fyfyrwyr yn neuadd y dre neithiwr.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn.

Gwelwyd ddrama dda gan fyfyrwyr yn neuadd y dre neithiwr.
Dyfernir 1 ½ marc gan ei bod yn dangos ystyr a defnydd ond cosbir y gwall treiglo.

**tra:** dilynir y cysylltair tra gan ferf (heb dreiglad) a hynny'n uniongyrchol, heb y/yr yn eu gwahanu.  Gellir dilyn 'tra' gan ragenw – tra fy mod/tra dy fod

Eisteddais ddoe yn y car i ddarllen tra oedd aelodau'r tîm yn ymarfer.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio'r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithydddol.

Eisteddais ddoe yn y car i ddarllen tra yr oedd aelodau'r tîm yn ymarfer.
Gellir dyfarnu 1 ½ marc am yr ateb hwn gan fod 'tra' ac 'yr' yn anghywir.

© WJEC CBAC Cyf.

Roedd Gwyn yn ddyn tra chryf.
Gellir dyfarnu 2 farc am yr ateb hwn am ddefnyddio’r ffurf yn gywir gan ddangos ystyr a defnydd a chywirdeb ieithyddol, adferf +ansoddair sydd yma.

Fe dalaf y bil yn syth, tra mod i’n cofio.
Gellir dyfarnu 1 ½ marc am yr ateb hwn gan fod angen rhagenw blaen rhwng ‘tra’ a’r berfenw ‘bod’ neu gollnod cyn ’mod.

**(3x2 = 6)**

© WJEC CBAC Cyf.

**(b)**

(i) Rhoddir 1 marc am esboniad cywir. Disgwylir bod yr ymgeiswyr yn defnyddio termau cywir:

**i'r <u>ddinas</u>**: enw benywaidd, unigol yn treiglo'n feddal ar ôl y fannod *'r*. **[1]**

(ii) Rhoddir 1 marc am bob ateb cywir:

**berf gryno yn dilyn rhagenw perthynol:** a wna
**berfenw:** dychwelyd, magu, achosi, ymwneud **[1x2=2]**

(iii) Rhoddir 1 marc am bob cywiriad cywir, cyfanswm o 3 marc

'Er nad yw'r gân *'Cysgodion'* **gystal** â'r gweddill ceir amrywiaeth o arddulliau ac mae pethau'n **argoeli'n dda / edrych yn dda / edrych yn obeithiol / edrych yn well / edrych yn addawol / edrych yn llwyddiannus** i'r grŵp. **O ganlyniad** dyma gryno ddisg addawol iawn.
1 neu 2 wall – colli ½ marc. Mwy na 2 wall – colli 1 marc. **[1x3=3]**

(iv) Gellir dyfarnu 2 farc am yr isod.

A oeddech chi wedi archebu eich dillad chwaraeon?
Rhoddir ½ marc am *'oeddech'*, 'chi', 'eich', 'dillad'. **[2]**

(v) Rhoddir 1 marc am bob gwall a gywirwyd ac 1 marc am bob esboniad cywir. Rhaid i'r cywiriad fod yn gywir cyn ennill marc. Disgwylir bod yr ymgeiswyr yn defnyddio termau cywir e.e. rhagenw, arddodiad, berf, enw benywaidd.

**i'w** > **at ei:** defnyddio *arddodiad* anghywir, angen defnyddio'r arddodiad 'at' ar ôl *berfenw* 'anfon'; anfonais at rywun.

**fod dim** > **nad oes/na fydd/na fyddai**: angen defnyddio'r *negydd* 'nad' wrth *negyddu cymal enwol.* Ni ddylid negyddu cymal drwy ddefnyddio 'dim'. Ni dderbynnir 'nad oedd' gan fod y frawddeg yn cyfeirio at y dyfodol. **[4]**

(vi) Rhoddir 2 farc am frawddeg gywir. 1 neu 2 wall – colli ½ marc. Mwy na 2 wall – colli 1 marc.

Gellir dyfarnu 2 farc am y brawddegau isod, 1 marc yr un am *'nad oes'* ac *'eu'*
Mae cylchgronau ar y silff *nad oes* neb byth yn *eu* darllen.
Mae cylchgonau *nad oes* neb byth yn *eu* darllen ar y silff. **[2]**

(vii) Rhoddir 1 marc am gymal adferfol. **[1]**

© WJEC CBAC Cyf.

(viii) Rhoddir 4 marc am lunio paragraff amrywiol ei frawddegau.
1 neu 2 wall – colli ½ marc
Mwy na 2 wall – colli 1 marc
Hyd at 4 gwall – colli 1 marc
Hyd at 8 gwall – colli 2 farc
O dan 1 marc y darn ddim yn ddealladwy
Ni ddylid cosbi yr un gwall ddwywaith.
Dylid ystyried a oes gorddefnydd o rai geiriau. Os yw'n ailadroddus colli ½ marc
Mae angen ystyried cywair y darn. **[4]**

Gellir dyfarnu 4 marc am y canlynol.
Disgybl cydwybodol yw Siôn sydd wedi gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn. Gall siarad yn hyderus mewn grŵp a chydweitho'n rhwydd ag eraill gan amlygu sgiliau arwain naturiol.
Datblygodd ei sgiliau darllen ynghyd â'i allu i ysgrifennu'n greadigol.
Er bod angen parhau i wirio ei fynegiant does dim dwywaith nad yw wedi dangos cynnydd ymhob agwedd o'i waith eleni.

**Adran B**

**Meini Prawf Cwestiwn penodol**

**Wrth ateb y naill gwestiwn a'r llall disgwylir bod yr ymgeiswyr yn:**

- cyfeirio'n benodol at gerddi a defnyddio dyfyniadau perthnasol;
- saernïo traethawd ac yn dewis a dethol y perthnasol; ac
- ymdrin â chrefft/arddull y beirdd, ei saernïo o fewn y drafodaeth gan gyfeirio at y gynghanedd lle bo angen.

**Dyfarnu marciau:**

- rhaid ystyried ansawdd y drafodaeth wrth ddyfarnu marciau;
- os na roddir sylw i arddull o gwbl dylid gostwng un band marciau;
- pe bai ymgeisydd yn trafod un gerdd yn unig – marcio AA2 allan o 10;
- pe bai ymgeisydd yn trafod dwy gerdd yn unig – marcio AA2 allan o 20;
- rhaid i farc iaith AA3 fod o fewn band marciau i farc y cynnwys;
- dylid ystyried 3 phwynt cyntaf meini prawf AA3 yn ogystal â'r ddau sy'n ymwneud â chywirdeb iaith.

**Cwestiwn (a)**

*Trafodwch y **modd y darlunnir cymdeithas** yn y cerddi a astudiwyd gennych o waith Ifor ap Glyn, Grahame Davies a Waldo Williams. Cymharwch **safbwyntiau'r** beirdd tuag at eu cymdeithas. Bydd angen i chwi gyfeirio at **gynnwys** y cerddi a'u **harddull**.*

Byddant yn cyfeirio at 'DIY', 'Preseli' a 'Beaufort, Blaenau Gwent, mewn gwyrdd'. Y nod yw dewis a dethol yr elfennau perthnasol yn unig i ateb gofynion y cwestiwn. Bydd yr elfen **gymharol** yn rhan hanfodol wrth gyfleu safbwyntiau'r beirdd. Mae dau o'r beirdd yn canu am gymdeithasau mewn cymoedd/ardaloedd diwydiannol tra bo Waldo yn canu am gymdeithas bro ei febyd Y Preseli ond mae gan y tri eu llais eu hunain.

**Darlunio newid neu ddirywiad cymdeithas: gweld dirywiad**, **newid a materoldeb cymdeithas** a wna Grahame Davies yn ei gerdd 'DIY'. Gwelir ei safbwynt tuag at gymdeithas a bywyd ein byd modern yn glir wrth ystyried tynged Neuadd y Gweithwyr. Mae natur a hanfod cymdeithas wedi newid er gwaeth a gwelir ei safbwynt tuag at agwedd pobl at eiddo; *'pawb drosto'i hun'* yw hi a chalon cymdeithas fel Neuadd y Gweithwyr wedi dirywio. Ceir rhyw ddieithrwch cymdeithasol wrth bwysleisio mai ar *'gyrion-tre'* mae'r siopau bellach ac yno y byddwn fel unigolion yn *'prowla'* mewn *'drysfa o ddewisiadau'*. Mae rhywbeth ar goll yn ein ffordd o fyw yn y presennol *'a'n byd ar chwâl yn fil o ddarnau bychain ... fel cyrbibion gwareiddiad'.*

Disgrifio cymdeithas bro ei febyd a wna Waldo a gwêl fygythiad y Weinyddiaeth Amddiffyn yn **bygwth ei gymdeithas ddelfrydol**. Ysgrifennodd Waldo'r gerdd 'Preseli' pan oedd y weinyddiaeth rhyfel yn bygwth codi maes ymarfer rhyfel o amgylch ardal Mynachlog-ddu. Cododd y bobl leol wrthdystiad yn erbyn hyn a chyfraniad y bardd i'r brotest hon oedd y gerdd 'Preseli'. Mae Waldo yn boenus o ymwybodol o'r bygythiad i'r iaith a chenedligrwydd y Cymry. Gwêl berthynas unigryw rhwng gwlad a'i phobl a chysylltiad rhwng iaith a thir.
I dde-ddwyrain Cymru ac i bentref 'Beaufort' ym Mlaenau Gwent y mae Ifor ap Glyn yn ein tywys a darlun o **ddadfeiliad cymdeithas** Gymraeg gapelyddol yn y presennol a geir ar ddechrau'r gerdd hon. Mae capel Carmel wedi cau, y '*Gymraeg yn llwyd'* a'r beddau yn boddi mewn *'môr o ddail tafol'*. Y Gymraeg yw'r geiriau ar y cerrig beddau ond nid oes fawr ddim bywyd ynddi. Mae delwedd y brain fel petai'n darogan gwae a ffenestri'r capel fel llygaid yn 'rhythu'. Dyma ddarlun negyddol yn cyfleu diffyg parch cymdeithas.

**Pigo ein cydwybod:** tra bo **dychan** Grahame Davies yn pigo ein cydwybod gyda'r teitl 'DIY' ac yn cyfleu dirywiad materol ein bywyd modern i'r dim, **rhybuddio'n dawel** a wna Waldo. Gwêl ei fro fel rhan annatod o'i hunaniaeth ond gwêl y bygythiad hwn o godi maes ymarfer rhyfel o amgylch ardal Mynachlog-ddu yn tanseilio'i hunaniaeth. Yng nghlo ei gerdd 'Preseli' mae'n **ymbil arnom** i warchod ei ardal a'i gwerthoedd gwaraidd gan fod rhyw rym estron yn bygwth ei gymdeithas ddelfrydol. Nid ceisio ateb a wna Waldo yn 'Preseli' ond rhoi'r ateb – cenhadu'n dawel ac yn heddychlon. Does dim dwywaith nad yw Ifor ap Glyn hefyd yn gynnil iawn ei ymateb wrth gyfeirio at *'nythfa'r gwatwarwyr'* sydd wedi cefnu ar yr iaith tra bo *'crawcian'* y *'brain eraill'* yn *'darogan glaw'.*

**Darlunio gwerthoedd cymdeithas drwy gofio:** mae'r tri yn darlunio gwerthoedd cymdeithas. Delfrydu'r gorffennol pan oedd cymdeithas yn cydweithio, yn dod at ei gilydd i godi adeiladau er budd pawb megis neuadd, capel a chlwb a wna Grahame Davies. Bron nad yw'n cyfleu rhyw hiraeth am yr hen gymdeithas gymdogol ac mae'r gwrthgyferbynnu parhaol rhwng ddoe a heddiw yn dwysáu'r cofio. Gwêl uchelgais, hunanoldeb, elw personol a materoliaeth yn cael yr afael drechaf ar werthoedd cymdeithas a dyhead sydd yma am adennill y tir a gollwyd.

Gweld cysylltiad annatod rhwng y gorffennol a'r presennol/dyfodol a wna Ifor ap Glyn. Cynrychioli hanes a gwreiddiau cymdeithas a wna'r meirwon. Awgryma'r bardd yn gynnil fod y gorffennol yn mynd i oroesi ac nad yw'r tyfiant newydd yn un dinistriol. Mae ddoe yn ffrwythloni yfory.

Yn yr un modd, drwy edrych yn ôl i'r gorffennol ac ar y presennol, caiff Waldo ateb i'r dyfodol. Mae ardal Y Preseli – y lle a'r bobl yn noddfa iddo. Pobl sy'n mynd â'i fryd gyda chariad y bardd at ei fro yn tarddu o'r bobl. Er nad yw'r tir yn gyfoethog; eto mae'r **cydweithio a'r gwydnwch** a wêl Waldo yn y modd y daw'r bobl i delerau gyda'r amodau byw yn ei ysbrydoli fel bardd.

**Agwedd obeithiol** a gawn gan Ifor ap Glyn. Nid cyrff ein hynafiaid sy'n gwrteithio'r tir yn unig ond eu hiaith hefyd. Daw tyfiant yr haf i gynrychioli'r trigolion sy'n ceisio adennill yr iaith Gymraeg yn yr ardal a dyna'r gobaith a wêl y bardd. *'Mae'r meirw a'r heniaith yn bwydo'r tir ac mae'r iaith yn wyrdd, fel y fynwent ir…'* Gwêl ardal yn ceisio addasu ac adennill ei gafael yn yr iaith Gymraeg. Ceir cynnwrf lleisiau'r plant bach a'u *'Cymraeg Ysgol Feithrin fel mellt yn y llwydwyll.'* Mae'r festri yn fyw tu ôl i'r capel marw a gwêl y bardd holl dyfiant y fynwent yn symbol am dwf yr iaith.

Yn yr un modd wedyn Waldo; edrycha drwy ffenestr ei iaith a'i ddiwylliant ar yr hil ddynol yn y gorffennol ac yn y presennol o'i amgylch yn y Preseli ac o wneud hyn caiff ateb i ystyr bywyd. Gwelir pwysigrwydd Cymru a'r iaith Gymraeg iddo.

Er ei fod yn cydnabod mai cyfnod byr yw ein bodolaeth ni ar y ddaear sef y *'drofa fer'* pwysleisia fod gan bawb ei gyfraniad i'w wneud a dyna'r her sydd angen i ni ei hwynebu. **Agwedd gadarnhaol** sydd gan Waldo ac mae'n gwbl argyhoeddedig nad rhyfel yw'r ateb i broblemau'r gymdeithas. Gwerthoedd ysbrydol a brawdoliaeth yw ei brif thema a dyma'r egwyddor i sicrhau heddwch ac unig obaith y ddynoliaeth i fyw bywyd heddychlon. Roedd gan Waldo sicrwydd y byddai hyn yn goroesi unrhyw fygythiad.
Yn wahanol i Waldo ac Ifor ap Glyn creu diflastod negyddol a siom wna Grahame Davies yn y cwpled clo sy'n odli'n effeithiol wrth gyfeirio at y *'gwe cyd-fyw yn gwanhau.'* Mae defnydd y bardd o'r mesur yn ddiddorol yma hefyd gyda hyd y llinellau yn lleihau tua'r diwedd fel petai'n adlewyrchu dirywiad y gymdeithas. Caiff y newid sylweddol ei bwysleisio gan y geiriau *'pob dim'* sy'n cyfleu'r tristwch i'r dim.
Dylent gyfeirio at ddefnydd y beirdd o fesurau ac arddull wrth drafod y darlun o gymdeithas e.e. Waldo a'i gyffyrddiadau cynganeddol, y wers rydd wedyn i Grahame Davies yn caniatáu iddo amrywio hyd a rhythm llinellau i daro ac Ifor ap Glyn yn manteisio ar ddefnyddio cwpled sy'n odli i gloi'r gerdd yn gofiadwy.

© WJEC CBAC Cyf.

Byddant yn cyfeirio at:

**'DIY' Grahame Davies**

- pwysigrwydd gwerthoedd cymdeithas, cyd-ddyn a brawdgarwch
- gwrthgyferbynnu'r cydweithio cymdogol a fu gyda bywyd y byd modern
- 'Neuadd y Gweithwyr' yn symbol o ddirywiad cymdeithas
- gwêl y bardd wacter cymdeithas – adeiladau gwag
- 'pawb-drosto'i-hun' yw hi bellach yn hytrach na chymdeithas gymdogol yn cydweithio, bron nad yw'r bardd yn cyfleu hunanoldeb unigolion
- gwêl ddieithrwch cymdeithasol wrth gyfeirio at y siopau DIY ar gyrion cymdeithas a phobl yn treulio eu hamser hamdden yn 'prowla'
- naws y gerdd yn dwysáu wrth ystyried ein 'byd ar chwâl yn fil o ddarnau bychain ...fel cyrbibion gwareiddiad'
- pwysleisir yr unigolyn yn ceisio rhoi'r 'mil o ddarnau bychain' at ei gilydd, nid oes unrhyw gydweithio cymdogol bellach
- naws truenus yn y clo – mae ar ein ffordd o fyw angen cymdeithas gymdogol
- cerdd rydd yn amrywio hyd a rhythm llinellau i bwrpas
- symbol 'Neuadd y Gweithwyr', arwyddocâd y gair 'angen', trosiad o'r adeiladau 'yn gregyn', defnyddio delweddau effeithiol, defnyddio ailadrodd 'cynnal a chadw', defnyddio gwrthgyferbyniad i ddwysáu'r dweud, effeithiolrwydd y ferf 'prowla', yr ansoddair 'unig', y ferf 'cyfannu' a'r cwpled clo

**Beaufort, Blaenau Gwent, mewn gwyrdd**

- gwêl y bardd newid mewn cymdeithas, mae capel Carmel wedi cau a'r fynwent yn wyllt gan dyfiant yr haf
- cyferbynnir bywyd a marwolaeth drwyddi draw
- cymherir dirywiad y Gymraeg â'r dirywiad yng nghyflwr y cerrig beddau - er gwaethaf ei phresenoldeb ar y cerrig beddau nid oes llawer o fywyd iddi
- mae'r darlun negyddol yn parhau wrth ddisgrifio ffenestri'r capel a'r brain, nid oes llawenydd na gobaith yma
- ceir newid llwyr yn y pedwerydd pennill a chyfeiria'r bardd ato ef ei hun yn y person cyntaf unigol 'daw'r storom i'm hysgwyd o'm sentimentaleiddio'
- datblyga'r ddelwedd estynedig o'r 'storom' yn storom liwgar o blant, o bramiau a welingtons
- mae bywyd yn y festri a phlant yr ysgol feithrin yn cadw twrw yn y Gymraeg
- yn y clo gwêl y bardd obaith i'r dyfodol a daw holl dyfiant y fynwent yn symbol am dwf yr iaith
- mae'r meirw a'r heniaith yn gwrteithio'r tir
- mesur rhydd a'r penillion yn amrywio o ran llinellau
- gwrthgyferbyniad rhwng bywyd a marwolaeth, effeithiolrwydd y lliw gwyrdd, personoli'r Gymraeg, delwedd estynedig o'r storom, cyfleu sŵn cras â geiriau, personoli ffenestri'r capel, cyferbyniad rhwng y capel a'r festri, cwpled clo sy'n odli

**Preseli**

- Gwelir pwysigrwydd bro'r Preseli, yr iaith Gymraeg a Chymru i'r bardd.
- Roedd yn ysgrifennu pan oedd y weinyddiaeth ryfel yn bygwth codi maes ymarfer rhyfel o amgylch ardal Mynachlog-ddu.
- Roedd yn adnabod ei ardal yn dda a'r hyn sydd o'i amgylch sydd wedi magu ynddo annibyniaeth barn.
- Cyfeiria at ei fro enedigol fel 'bro brawdoliaeth' a chariad Waldo at fro yn tarddu o'r bobl.
- Gwêl ei fro fel rhan annatod o'i hunaniaeth, bygythiad i'w fro yn tanseilio ei hunaniaeth.
- Mae brawdgarwch a brawdoliaeth, penillion 2 a 3 yn thema allweddol
- Mae cymdeithas ddynol ar y Preseli yn wydn ac yn cydweithio, er yn brin yn faterol, syniad o berthyn yma.
- Gwêl yn y Preseli obaith i ddynoliaeth, dyma enghraifft berffaith sut y dylai pobl fod yn byw ac yn gweithio gyda'i gilydd – microcosm o Gymru yw'r ardal.
- Gwelir darlun delfrydol o fro ei febyd a'r ple wrth gloi.
- Ceir heddychiaeth yn y clo, rhyfel a'r ffatri arfau yn bygwth yr heddwch hwn.
- Roedd Waldo yn gwbl argyhoeddedig nad rhyfel yw'r ateb i broblemau'r gymdeithas.
- Mae gobaith yn treiddio drwy'r gerdd, y gobaith am y dyfodol yn cael ei drosglwyddo wrth ddefnyddio delweddau byd natur a'r 'ffenestr' a'r 'ffynnon'.
- Cerdd rydd – amrywio hyd llinellau ond yn defnyddio odl.
- Ceir ymhyfrydu yn sŵn a sain yr enwau lleol; cyferbyniad: 'yr yrfa faith ar y drofa fer', delwedd o 'dŷ', ailadrodd y ferf 'cadwn'; arwyddocâd y rhagenw blaen 'fy'; trosiad Ac yn estyn yr haul i'r plant o'u plyg' i gyfleu caredigrwydd a gofal y bobl; Waldo yn mynnu bod ei gyd-Gymry yn sefyll fel un, 'perl yr anfeidrol awr': mae'r lle fel trysor gorau posibl iddo.

Mae modd i ymgeiswyr ennill marciau trwy gyfeirio at nodweddion perthnasol na nodwyd yn y cynllun marcio hwn. Dylid gwobrwyo pob ateb teilwng.

© WJEC CBAC Cyf.

**(b)** *Mae Iwan Llwyd, Menna Elfyn a Karen Owen yn dangos **eu hymateb i ryfela a pharatoi at ryfel** yn eu cerddi.* **Trafodwch** *a chymharwch **safbwyntiau'r** beirdd yn eu cerddi. Dylech gyfeirio at **gynnwys** y cerddi a'u **harddull.***

Byddant yn cyfeirio at 'Aneirin', 'Cân y Milwr' a 'Sul y Mamau'. Y nod yw dewis a dethol yr elfennau perthnasol yn unig i ateb gofynion y cwestiwn. Bydd yr elfen gymharol yn rhan hanfodol wrth gyfleu safbwyntiau'r beirdd.

Mae'r tri bardd yn barddoni mewn cyfnodau gwahanol ac mae effaith rhyfel ar gerddi'r beirdd yn amrywio. Mae gan y tri hefyd ffyrdd gwahanol o gyfleu eu hymateb personol i ryfela.

Comin Greenham yn yr 1980au yw lleoliad Menna Elfyn, safle milwrol lle byddai protestwyr yn gosod pebyll ac yn gwrthdystio'n heddychlon a di-drais yn erbyn arfau niwclear dinistriol. Cyfeirir at yr eira a'r ffin o bwys sef y ffens sy'n amgylchynu ac yn gwarchod storfeydd yr arfau niwclear. Dyma awgrym o'r perygl, symbol o awdurdod, yno er mwyn cau pobl allan. Mae'r lleoliad yn pwysleisio'r **elfen ddinistriol a thema rhyfel** sef yr arfau niwclear, yr ymladd a dinistrio eiddo. Cyfleir hefyd fod y merched drwy brotestio yn peryglu eu bywydau a'u rhyddid. Darlunnir bywyd dyddiol y menywod sy'n protestio ac yn *'cadw tŷ di-do'*. Cyfeirir at ymladd ganol nos a dinistrio eiddo a'r dyfalbarhad sy'n rhaid wrtho.

Cyfosod pobl o wahanol gyfnodau a wna Iwan Llwyd yn *'Aneirin'* a thrwy hynny sylweddoli nad yw dyn, yn ei anian yn newid. Aneirin modern yw'r newyddiadurwr sy'n neidio i ganol y frwydr. Trwy alw'r newyddiadurwr yn 'Aneirin' pwysleisia'r bardd **mai'r un yw hanfod rhyfel ymhob oes.**

Yn 'Cân y milwr', cerdd sydd fel 'Aneirin' yn ymwneud yn uniongyrchol â rhyfel, gwelir safbwynt y bardd Karen Owen at y rhyfel yn Affganistan o'r cychwyn cyntaf. Portreadu hynt milwr cyffredin y rhyfel yn Affganistan fel un **creulon a didostur** a wna Karen Owen ac er mai canolbwyntio ar dynged un milwr a wneir oherwydd ei fod yn ddienw mae ei stori ef yn cynrychioli stori pawb. Cyflëir mai dioddefwr yw'r milwr a gaiff ei ddanfon yn ddidrugaredd i faes y gad a daw oddi yno'n farw. Noda'r bardd mai cylch tragwyddol yw'r daith yn ôl ac ymlaen o faes y gad.

**Agwedd feirniadol:** safbwynt beirniadol sydd gan Iwan Llwyd at ryfel a chydnabu na lwyddwyd i ennyn atgasedd dyn at ryfel er gwaetha'r datblygiad mewn technoleg a chyfryngau'r gohebydd. Eto er gwaetha'r elfen gref o feirniadaeth cynnig anfarwoldeb i'r milwyr a wna'r newyddiadurwr rhyfel a gobaith iddynt fyw wedi'r brwydro a chael eu cofio fel arwyr yn union fel Aneirin yn ei gerdd 'Y Gododdin'. Mae holl newyddiadurwyr hanes yn gallu rhag-weld tynged y milwyr.

Fel Iwan Llwyd mae Karen Owen hefyd yn gynnil feirniadol wrth awgrymu'r twyll honedig sy'n gysylltiedig â'r gorchmynyn estron. Nid mynd o'i wirfodd a wna'r milwr ond cael ei *'orchymyn'* i fynd. Fel cân wrthfilwrol mae yma neges bwerus iawn a'r ergydion eironig yn cyfleu safbwynt y bardd yn glir. Er mai ymladd dros ryddid pobl Affganistan a wna'r milwr mae wedi colli ei ryddid a cholli ei fywyd erbyn y diwedd.

Ceir agwedd o obaith ac anobaith yn y gerdd 'Sul y Mamau yn Greenham, 1984' oherwydd er bod y bardd yn ofni na fydd y brotest yn dod i ben daw mwy o bobl i ymuno yn y brotest sy'n rhoi gobaith. O safbwynt y bardd dylai'r brotest fod yn perthyn i bawb ac rydym i gyd yn gyfrifol am y sefyllfa. Eto mae'r cyfeiriad at *'y comin ar erchwyn y didangnef yn Greenham'* yn rhoi naws negyddol yn y clo fel petai'r bardd yn cyfeirio at ddinistr y ddynoliaeth.

© WJEC CBAC Cyf.

**Negeseuon:** I Menna Elfyn caru eich cymydog yw protestio yn erbyn arfau niwclear all ladd yr holl hil ddynol. Pwysleisio pa mor ddibris ac amhersonol yw bywyd milwr yw neges Karen Owen. Mae'n rhan o beiriant rhyfel ac mae ffawd y milwyr yn y ddwy awyren sy'n 'teithio ynghynt' yn taro'n glir.

Drwy gyfosod pobl o wahanol gyfnodau sylweddola Iwan Llwyd nad yw dyn, yn ei anian, yn newid. Dros yr holl ganrifoedd parhau mae ysfa dyn i ladd cyd-ddyn, parhau mae ysfa gohebydd rhyfel i gofnodi rhyfel a pharhau mae ysfa'r milwr i gael ei anfarwoli.

Dylent gyfeirio at ddefnydd y beirdd o **fesurau ac arddull** wrth drafod safbwynt y beirdd at ryfel a pharatoi at ryfela; Menna Elfyn yn defnyddio'r mesur penrhydd gan fanteisio'n llawn ar amrywio hyd llinellau a hyd y penillion, yn yr un modd Iwan Llwyd gyda'r penillion byrion tair llinell fel golygfeydd sydyn adroddiadau ar gyfer newyddion teledu a Karen Owen yn defnyddio'r mesur rhydd ar fydr ac odl i ailadrodd y llinell olaf yn fwriadol.

**Byddant yn cyfeirio at:**

**Aneirin: Iwan Llwyd**

- gweledigaeth Iwan Llwyd fel bardd ac elfen gref o feirniadaeth yma na lwyddodd y Cynfeirdd na'r newyddiadurwyr cyfoes i ennyn atgasedd dyn at ryfel
- mynd yn ôl mewn hanes wrth ddewis Aneirin fel teitl ond yn trafod o safbwynt heddiw
- trafod rôl y gohebydd rhyfel o gyfnod Aneirin i gyfnod rhyfel Fietnam
- Aneirin modern yw'r newyddiadurwr sy'n neidio i ganol y frwydr ac yn tynnu llun mewn lliw, ei gyfosod ag Aneirin y bardd yn y 6ed ganrif - mae'r lliw yn cynrychioli'r presennol, a'r 'du a'r gwyn' yn cynrychioli'r gorffennol
- yr un yw ysfa dyn i ryfela, yr un yw ysfa gohebydd rhyfel i gofnodi rhyfel a'r un yw ys- fa'r milwr i gael ei anfarwoli
- Aneirin yn rhoi urddas i farwolaeth ac i'r hogiau a laddwyd yn y rhyfeloedd, rhoi *'cip ar dragwyddoldeb'* i'r milwyr, parhau i gadw cof y milwyr a sicrhau y byddant yn fyw am byth
- *'cip ar dragwyddoldeb'* - gellir fodd bynnag awgrymu bod yma ystyr ddeublyg – bod y milwyr yn cael awgrym bod eu gwrhydri yn ennill anfarwoldeb clod iddynt, neu rybudd iddynt fod angau a byd tragwyddol yn ymyl
- cyfosod yw un o brif nodweddion arddull Iwan Llwyd, cyfosod pobl, amser, llefydd a digwyddiadau
- cerdd ddigynghanedd, cyfres o benillion tair llinell - mae'r penillion byrion fel golygfeydd sydyn adroddiadau ar gyfer newyddion teledu
- cyfeiriadau bwriadol at farddoniaeth Aneirin *'y milwyr briwiedig'* a'u cyrff yn *'gig amrwd a fwydai frain'*, delweddau rhyfel, gwrthgyferbyniadau rhwng brwydr Catraeth a brwydrau Kampuchea, Somme a'r Chwe Sir - yr un oedd y lluniau o'r rhyfeloedd ond bod y rhain yn lluniau du a gwyn, defnyddio berfau, cyfarch y newyddiadurwr, crefft sain rhai llinellau, personoli'r tanciau, goferu, coegni yn yr ansoddair 'ddiduedd', amwysedd
- gwelir ei gred mai ffolineb yw'r dyhead i ladd a'r dyhead i farw dros achos mewn ymgais at anfarwoldeb, erchylltra rhyfel yn cael ei amlygu ymhob oes ac nid yw wedi newid dros y canrifoedd

**Cân y milwr: Karen Owen**

- cân syml, wrthfilwrol bwerus
- canolbwyntir ar dynged un milwr, dienw sy'n cael ei alw i ymladd dros ryddid pobl Affganistan
- caiff ei orchymyn i fynd a cheir awgrym o dwyll yn perthyn i'r gorchymyn wrth awgrymu mai *'dyrchafiad'* ydw, nid oes ganddo ddewis ond ufuddhau mewn gwirionedd
- sonnir am ofid y fam, yr ansicrwydd a'r dagrau
- cyflëir y sefyllfa eironig wrth gyfleu hawliau'r milwr, yr hawl i gael helmed, cysgodfan ac arch ond nid yw'n cael dewis rhwng byw a marw
- sonnir am y cyfarpar - yn *'sgidiau blaen haearn'* a'i *'fenig asbestos'* ond er gwaethaf yr holl gyfarpar fe'i lladdwyd ar dir estron - pwysleisir pa mor amhersonol yw'r milwr
- rhan o beiriant rhyfel ydyw, tra bo yntau yn cael ei gludo adref '*fel bwled trwy'r gwynt, bydd llond dwy awyren yn teithio'* allan *'ynghynt'*
- cerdd rydd ar fydr ac odl sy'n ailadrodd y llinell olaf fel byrdwn neu gytgan; mae amrywio'r arddodiad sy'n rhagflaenu *'Affganistan'* yn effeithiol, fwriadol
- defnyddio ansoddeiriau'n effeithiol, effeithiolrwydd geiriau unigol - *'rhydd', 'llith', 'asbestos'*, defnyddio berf *'llyncu'*, ailadrodd *'câi'*, arwyddocâd y ferf amhersonol '*fe'i lladdwyd',* defnyddio eironi, gallu i amrywio'r cywair – *'carbôrd'*, *'dan guddliw y byd'* – fel y byddai milwr yn gwisgo gwisg guddliw, mae'r byd hefyd yn cuddio'r gwirionedd am ei farwolaeth, effeithiolrwydd y gymhariaeth *'fel bwled'*, arwyddocâd y machlud yn y clo

**Sul y Mamau yn Greenham, 1984: Menna Elfyn**

- Ystyria'r bardd y brotest yng Nghomin Greenham fel cerdd.
- Ceir cyfosod rhwng y dynion a merched; y dynion yn eu lifrau gwaith yn *'bwrw' a'r merched yn 'creu anheddau'.*
- Cyfeirir at y ffin sef y 'Ffens' sy'n amgylchynu ac yn gwarchod storfeydd yr arfau niwclear; dyma symbol o awdurdod sy'n cyferbynnu gyda diffyg grym y merched wrth iddynt *'chwarae tŷ bach mewn cylch'.*
- Portreadir y merched a'u cymdeithas gyfartal.
- Darlunnir bywyd beunyddiol y merched yn protestio o dan amgylchiadau anodd er gwaetha'r holl amgylchiadau anodd mae blodau'r gwanwyn yn *'codi'* a'r *'cennin Pedr o Gymru'n blodeuo'.*
- Cyfeirir at ymladd ganol nos a dinistrio eiddo.
- Mae'n cyfleu gobaith wrth sôn am fwy o brotestwyr yn cyrraedd.
- Mae'r *'gerdd hir'* nawr yn drosiad am y brotest.
- Mesur penrhydd yn amrywio hyd llinellau a hyd penillion.
- Ceir cyfosod rhwng dynion a merched, cyferbyniad rhwng yr eira a thân, defnyddio ymadrodd *'brwydro yn erbyn y symbylau'*; arwyddocâd y geiriau *'chwarae tŷ bach'*, effeithiolrwydd berfenwau *'sgwrsio a chanu creu a chrio'*, haenau ystyr yr ymadrodd *'cadw tŷ di-do'* ac *'o dan draed'*, defnyddio cyflythrennu i gyfuno syniadau o ddinistrio eiddo ac ymladd, defnyddio berf bwerus *'blodeuo'*.

Mae modd i ymgeiswyr ennill marciau trwy gyfeirio at nodweddion perthnasol na nodwyd yn y cynllun marcio hwn. Dylid gwobrwyo pob ateb teilwng.

**Cynllun Marcio Cwestiwn 2 – Barddoniaeth 30 marc am yr ymateb ysgrifenedig a 10 am safon yr iaith a'r arddull**

| AA2 – Ymateb i Destun | AA2 – Ystod y Marciau (30) | AA3 – Ysgrifennu | AA3 – Ystod y Marciau (10) |
|---|---|---|---|
| • arddangos gwybodaeth drylwyr ac eang am y cerddi<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynol<br>• cymharu a chroesgyfeirio effeithiol rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd<br>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n dda ystod o gerddi<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• cyflwyno tystiolaeth drwy gyfeirio at gerddi penodol a defnyddio dyfyniadau'n effeithiol<br>• dadansoddi arddull yn effeithiol a chyfeirio at y technegau a ddefnyddir gan y beirdd<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn effeithiol | **24-30** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw, mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• saernïo'r gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael sicr ar ramadeg a chystrawen | **8-10** |
| • arddangos gwybodaeth fanwl am y cerddi<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gydlynol<br>• cymharu a chroesgyfeirio synhwyrol rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd<br>• arddangos dealltwriaeth eithaf da o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'n synhwyrol ystod o gerddi<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio at elfennau perthnasol yn y cerddi a defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol yn aml<br>• dadansoddi arddull yn foddhaol a chyfeirio at y technegau a ddefnyddir gan y beirdd<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn gyson | **20-23** | • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir a chroyw mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen | **7** |

| AA2 – Ymateb i Destun | AA2 – Ystod y Marciau (30) | AA3 – Ysgrifennu | AA3 – Ystod y Marciau (10) |
|---|---|---|---|
| • arddangos gwybodaeth am y cerddi gyda manylder ar adegau<br>• crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• cymharu a chroesgyfeirio rhwng gweithiau'r beirdd a astudiwyd<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• dadansoddi a dehongli'r testun yn foddhaol<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• cyfeirio weithiau at elfennau perthnasol yn y cerddi a defnyddio dyfyniadau addas<br>• trafod agweddau ar arddull y beirdd a chyfeirio at dechnegau a ddefnyddir<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi barddoniaeth yn eithaf cyson | **15-19** | • mynegi syniadau a dadleuon yn glir mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• rhoi sylw boddhaol i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• cynllunio'r gwaith yn lled ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen | **5-6** |
| • arddangos gwybodaeth am gynnwys y cerddi<br>• crynhoi rhai ffeithiau perthnasol<br>• cymharu a chroesgyfeirio ychydig rhwng gweithiau'r beirdd<br>• arddangos dealltwriaeth o'r cysyniadau<br>• ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y cerddi<br>• defnyddio ambell gyfeiriad penodol at gerddi a defnyddio dyfyniadau addas yn achlysurol<br>• trafod rhai agweddau ar arddull y beirdd a chyfeirio at dechnegau a ddefnyddir<br>• defnyddio rhai termau gwerthfawrogi barddoniaeth | **11-14** | • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | **4** |

© WJEC CBAC Cyf.

| AA2 – Ymateb i Destun | AA2 – Ystod y Marciau (30) | AA3 – Ysgrifennu | AA3 – Ystod y Marciau (10) |
|---|---|---|---|
| • arddangos gwybodaeth fras am y cerddi<br>• cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• ceisio cymharu gwaith beirdd â'i gilydd<br>• arddangos dealltwriaeth o ambell gysyniad<br>• dangos y tueddiad i ailadrodd cynnwys<br>• arddangos ambell enghraifft o ddatblygu syniadau personol, arwynebol<br>• defnyddio ambell i gyfeiriad penodol at gerddi a dyfynnu'n achlysurol iawn<br>• ceisio trafod ambell agwedd ar arddull<br>• defnyddio ambell derm gwerthfawrogi barddoniaeth | **6-10** | • mynegi syniadau uniongyrchol a syml yn lled glir<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen | **2-3** |
| • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol yn unig | **0-5** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol yn unig | **0-1** |



© WJEC CBAC Cyf.